Welsh Association for Gastroenterology and Endoscopy
Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endosgopi Cymru

# Cynnwys


**Nodau** ..... 2

**Strwythur sefydliadol** ..... 2

**Aelodaeth** ..... 3

Ffioedd ..... 3

Pleidleisio ..... 3

Terfynu aelodaeth ..... 3

**Rolau a chyfrifoldebau** ..... 4

**Lefel weithredol** ..... 4

Pwyllgor Gwaith ..... 4

Grŵp gweithredol craidd ..... 5

**Rhwydweithiau** ..... 5

**Cyswllt** ..... 5

Arweinyddion apwyntiedig ..... 5

Cynrychiolwyr o sefydliadau cysylltiedig ..... 6

**Swyddogion** ..... 6

**Cyfarfodydd** ..... 7

**Cynadleddau** ..... 7

**Cyllid** ..... 7

**Cyfathrebu** ..... 8

**Gwobrau a Bwrsariaethau** ..... 8

**Gwelliannau i'r cyfansoddiad** ..... 8

**Atodiad 1: Ychwanegiadau a newidiadau i'r fersiwn blaenorol** ..... 9

# Cyfansoddiad
## Fersiwn 9 Medi 2021

| | |
|---|---|
| Mabwysiedig | 11.10.2007 |
| Cywiro | 2008, 2009, 2015, 2017, 2021 |
| Fersiwn presennol | F.9 (newidiadau i'r fersiwn blaenorol yn atodiad 1) |
| Cyfieithiad Cymraeg | 12 / 2 / 2025 |

Cymdeithas Gastroenteroleg ac Endosgopi Cymru (C.G.E.C.) yw'r corff proffesiynol ac arweiniol ar gyfer pob agwedd ar Gastoenteroleg yng Nghymru. Mae CGEC yn sefydliad nid-ar-gyfer elw.

## Nodau

Nod y sefydliad yw gwella gofal clefion yng Nghymru sy'n dioddef o afiechydon gastroberfeddol drwy:

- Ddarparu arweiniad a chyngor proffesiynol
- Hwyluso cydweithio rhwng grwpiau amlbroffesiynol
- Gweithredu fel fforwm i ledaenu datblygiadau o fewn y ddisgyblaeth
- Annog safonau uwch mewn hyfforddiant ac addysg
- Hyrwyddo ymchwil ac archwilio
- Hwyluso proses o ddatblygu canllawiau drwy Gymru
- Hwyluso rhyngwyneb rhwng y cleifion a'r cyhoedd

## Strwythur Sefydliadol

Mae strwythur llywodraethiant CGEC yn cynnwys 3 lefel: y lefel weithredol; rhwydweithiau; a chysylltiadau ffurfiol â sefydliadau / grwpiau cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Gweithredol** | Pwyllgor gwaith |
| | Grŵp gweithredol craidd |
| | |
| **Rhwydweithiau** | Nyrsys a rhwydwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthynol |
| | Addysg a Hyfforddiant |
| | Ymchwil ac Archwilio |
| | Patholeg |
| | |
| **Cysylltiadau** | Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain (BSG) |
| | Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol (JAG) |
| | Pwyllgor IBD Cymru |
| | Grŵp Gweithredu Strategaeth Afu Cenedlaethol |
| | Cymdeithas Brydeinig ar Gyfer Astudiaethau'r Afu (BASL) |
| | Rhaglen Endosgopi Cenedlaethol (NEP) |

| | |
|---|---|
| | Cymdeithas Coloproctoleg Prydain ac Iwerddon (ACPGBI) |
| | Cymdeithas Llawdriniaeth ar y Stumog a'r Perfedd Uchaf Prydain ac Iwerddon (AUGIS) |
| | Cymdeithas Gastroenteroleg, Hepatoleg a Maeth Pediatrig Prydain (BSPGHAN) |
| | Cymdeithas Radioleg Gastroberfeddol ac Abdomenol Prydain (BSGAR) |
| | Cymdeithas Maeth Parenteral ac Enteral Prydain (BAPEN) |
| | |

Cynrychiolir grwpiau is-arbenigol, fel y coluddyn bach, pancreas, canser ac eraill drwy gyfethol arbenigwyr proffesiynol yng Nghymru i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor gwaith, fel y bo'r angen.
Y Pwyllgor Gwaith yw'r grŵp â'r grym pennaf o fewn CGEC, yn gyfrifol am osod polisi a chyfeiriad strategol. Mae'r Grŵp Gweithredol Craidd yn gweithredu ar ran y Pwyllgor Gwaith i ymgymryd â dyletswyddau gweithredol a rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae'r grwpiau lefel Gweithredol a Rhwydweithiol yn gweithio yn ôl cylch gorchwyl a gytunwyd ac sydd yn gyfredol. Mae aelodau'r grwpiau hyn yn gweithio o fewn terfynau eu proffiliau rôl ac yn atebol i'r Pwyllgor Gwaith.
Gall cynrychiolwyr sefydliadau a rhwydweithiau cenedlaethol allanol eraill ddod yn rhan o Bwyllgor Gwaith CGEC a chyfathrebu rhwng y sefydliadau a'i gilydd.

# Aelodaeth

Mae aelodaeth CGEC ar agored i unrhyw unigolyn sydd yn gweithio yn maes gastroenteroleg neu endosgopi yng Nghymru sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau'r Gymdeithas. Rhaid gwneud cais i fod yn aelod drwy wefan CGEC a fydd yn cael ei wirio gan y tîm gweinyddol i gadarnhau perthnasedd cefndir proffesiynol y cais. Lle bo amheuaeth, trafodir y cais gan y Pwyllgor Gwaith Craidd.

## *Ffioedd*

Bydd y tâl aelodaeth yn seiliedig ar gyflog. Mae ffioedd nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol a meddygon dan hyfforddiant yn seiliedig ar 50% a 75% o'r tâl aelodaeth llawn, a rhaid talu trwy archeb sefydlog ar y 1af o Hydref bob blwyddyn. Adolygir y ffioedd yn rheolaidd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

### *Ffioedd aelodaeth presennol (2021):*

- Ymgynghorydd neu feddyg cyfatebol - tâl aelodaeth llawn £100.00
- Hyfforddeion, rheolwyr a nyrsys neu weithwyr iechyd proffesiynol perthynol band 6 ac uwch (Agenda ar Gyfer Newid) £50.00
- Nyrsys neu weithwyr iechyd proffesiynol perthynol band 5 a llai (Agenda ar Gyfer Newid) £25.00
- Myfyrwyr meddygol – dim tâl
- Aelod wedi ymddeol yn llawn: £25

Gellir dyfarnu aelodaeth er anrhydedd yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Gwaith ac mae hyn yn rhad ac am ddim. Gall gynnwys unigolion sydd ddim yn gweithio

yng Nghymru, myfyrwyr, gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymddeol ac ambell unigolyn sydd ddim yn bodloni'r meini prawf uchod.

### *Pleidleisio*

Mae gan bob aelod, ar wahân i aelodau er anrhydedd ac aelodau sy'n fyfyrwyr, hawliau pleidleisio llawn, gan gynnwys un bleidlais yr un i ethol swyddogion; balot am newid cyfansoddiadol ac unrhyw beth arall yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Gwaith.

### *Terfynu Aelodaeth*

Mae terfynu aelodaeth yn bosib ar ôl ymgynghoriad llawn a phleidlais gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gwaith os bydd yr unigolyn dan sylw a'u cynyrchiolydd wedi cael cyfle i gael gwrandawiad gan y Pwyllgor Gwaith. Mae terfynu aelodaeth yn weithred anghyffredin ond bydd yn cael ei ystyried os bydd yr aelod unigol wedi dwyn anfri ar y sefydliad, wedi cyflawni trosedd ddifrifol neu ddim bellach yn cwrdd â'r meini prawf aelodaeth.

## Rolau a Chyfrifoldebau

### *Lefel Weithredol*

### Pwyllgor Gwaith

Mae Pwyllgor Gwaith CGEC yn ymgymryd â chynllunio strategol a phenderfyniadau ar gyfer y sefydliad yn unol â'u cylch gorchwyl. Byddant yn cytuno ar gynllun strategol a chynllun gwaith blynyddol a sicrhau bod y gweithgareddau'n cyfateb â'r gwariant.
Y Llywydd yw Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac mae'r Pwyllgor yn cynnwys holl swyddogion CGEC a chynyrchiolwyr enwebedig y rhwydweithiau a'r sefydliadau cysylltiedig a nodir isod:

| **CGEC Aelodaeth Pwyllgor Gwaith** |
|---|
| **Swyddogion** |
| Llywydd (Cadeirydd) |
| Is-lywydd (Is-gadeirydd) |
| Ysgrifennydd |
| Arweinydd nyrsio / gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol |
| Trysorydd |
| Arweinydd cyfathrebu |
| Arweinydd addysg a hyfforddiant |
| Arweinydd ymchwil |
| Arewinydd gweinyddol |
| **Arweinyddion Apwyntiedig** |
| Arweinydd llawfeddygon dan hyfforddiant |
| Arweinydd meddygon dan hyfforddiant |

| |
|---|
| Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol |
| Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain – Gwasanaethau Clinigol a Safonau (BSG – CSSC) |
| Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain – Cymdeithas Nyrsio (BSGNA) |
| Rhwydwaith patholeg |
| **Cynrychiolwyr sefydliadau cysylltiol** |
| Cymdeithas Coloproctoleg Prydain ac Iwerddon (ACPGBI) |
| Grŵp Gweithredu Strategaeth Afu Cenedlaethol |
| Cymdeithas Prydeinig ar Gyfer Astudiaethau'r Afu (BASL) |
| Rhaglen Endosgopi Cenedlaethol (NEP) |
| Cymdeithas Llawdriniaeth ar y Stumog a'r Perfedd Uchaf Prydain ac Iwerddon (AUGIS) |
| Pwyllgor Cymru ar Lid y Perfeddion (IBD Wales) |
| Cymdeithas Gastroenteroleg, Hepatoleg a Maeth Bediatrig Prydain (BSPGHAN) |
| Cymdeithas Radioleg Gastrberfeddol ac Abdomenol Prydain (BSGAR) |
| Cymdeithas Maeth Parenteral ac Enteral Prydain (BAPEN) |

Mae swyddogion CGEC yn gweithio yn unol â'u proffil rôl ac yn darparu arweiniad mewn perthynas â'r nodau strategol canlynol:

- Llywydd – llywodraethiant a arweiniad
- Is-lywydd – ansawdd a gwella gwasanaeth
- Arweinyddion cyfathrebu – ymgysylltu, cyfathrebu a chyfranogiad y cleifion a'r cyhoedd
- Arweinydd Addysg a Hyfforddiant – addysg a hyfforddiant
- Arweinydd Ymchwil – ymchwil a archwilio

## Grŵp Gweithredol Craidd

Mae'r Grŵp Gweithredol Craidd yn llai ac yn fwy hyblyg, a chanddo'r awdurdod i weithredu ar ran y Pwyllgor Gwaith er mwyn rhedeg y sefydliad o ddydd-i-ddydd yn ôl cylch gorchwyl y Gymdeithas.
Y Llywydd yw cadeirydd y Grŵp Gweithredol Craidd i reoli cyflawniad gweithredol y sefydliad a blaenoriaethu materion at sylw'r Pwyllgor Gwaith.
Ni chaiff y Grŵp Gweithredol Craidd ddatblygu na diwygio polisi na dogfennau cyfansoddiadol ond yn hytrach bydd yn gyfrifol am weithredu polisi yn unol â gweithdrefnau safonol. Mae'r Grŵp Gweithredol Craidd yn atebol i'r Pwyllgor Gwaith sydd yn cynnwys:

- Llywydd
- Is-lywydd
- Ysgrifennydd
- Trysorydd
- Arweinydd / arweinyddion cyfathrebu
- Arweinydd nyrsio / gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol
- Cydlynydd gweinyddol

Gellir cyfethol Arweinyddion Addysg a Hyfforddiant ac Arweinyddion Ymchwil i'r Grŵp Gweithredol Craidd yn ôl yr angen.

## Rhwydweithiau

Bydd rhwydweithiau'n cael eu sefydlu a'u rheoli gan CGEC a'u harwain gan swyddogion sydd yn cyfrannu at y Pwyllgor Gwaith. Mae pob rhwydwaith yn gweithredu yn ôl eu cylch gorchwyl ac yn cyfathrebu'r ddwy ffordd rhwng y Pwyllgor Gwaith a'r grwpiau perthnasol.

## Cysylltiadau

Fel y sefydliad proffesiynol arweiniol Cymreig ar gyfer pob grŵp o weithwyr sydd yn ymwneud â gastroenteroleg ac endosgopi, mae CGEC a'r aelodau'n trafod â nifer o sefydliadau cenedlaethol. Sicrheir cyfathrebu dwy-ffordd drwy apwyntio arweinyddion i gynrychioli CGEC ar sefydliadau allanol a thrwy fod sefydliadau'n enwebu arweinyddion i'w cynrychioli hwythau ar Bwyllgor Gwaith CGEG.

## *Arweinyddion Apwyntiedig*

Cynrychiolir CGEC ar Gymdeithas Gastroenteroleg Prydain – Gwasanaethau Clinigol a Safonau (BSG – CSSC); Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain – Cymdeithas Nyrsio (BSGNA) a hefyd Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol (JAG).
Gwahoddwn ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau i gynrychioli CGEC ar bob un o'r pwyllgorau hyn a phenodir yr ymgeiswyr llwyddiannus ar ddiwedd cyfweliad. Bydd cynrychiolwyr CGEC ar bob un o'r pwyllgorau hyn yn gweithredu yn ôl proffil eu rôl ac yn dod yn aelodau o Bwyllgor Gwaith CGEC trwy gydol eu cyfranogiad yn y pwyllgor allanol.

## Cynrychiolwyr o sefydliadau cysylltiedig

Mae'n ofynnol i bob sefydliad cenedlaethol perthnasol enwebu cynrychiolwyr i eistedd ar Bwyllgor Gwaith CGEC ac i sicrhau cyfathrebu dwy-ffordd gyda'u sefydliad. Lle nad oes sefydliadau cenedlaethol ar gyfer grwpiau is-arbenigedd ar gael, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfeirio at arweinydd neu swyddogion proffesiynol â diddordeb, yna eu cyfethol i'r Pwyllgor Gwaith yn ôl yr angen.

## Swyddogion

Mae'r swyddogion yn aelodau o CGEC ac yn cael eu hethol i'r swyddi canlynol yn y sefydliad:

- Llywydd
- Is-lywydd (Llywydd etholedig)
- Ysgrifennydd
- Trysorydd
- Arweinydd cyfathrebu
- Arweinydd nyrsio / gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol
- Arweinydd Ymchwil

- Arweinydd Addysg a Hyfforddiant
- Arweinydd Patholeg

Penodir yr Is-lywydd gan yr aelodau drwy enwebiad a phleidlais am gyfnod o ddwy flynedd. Ar ôl dwy flynedd, bydd yr Is-lywydd yn dod yn Llywydd yn awtomatig ac etholir Is-lywydd newydd yn eu lle.
Bydd y swyddogion eraill yn cael eu recriwtio drwy hysbyseb i ddatgan diddordeb a chyfweliad ffocws os bydd mwy nag un ymgeisydd cymwys yn bodloni gofynion proffil y rôl. Cynhelir y cyfweliad gan dri aelod o'r Pwyllgor Gwaith Craidd gan gynnwys y Llywydd a/neu'r Is-lywydd. Os nad oes ond un ymgeisydd cymwys sy'n bodloni gofynion proffil y rôl, dyfernir y swydd iddynt; os na, ail-hysbysebir y swydd.

Bydd pob tymor swydd yn dod i derfyn yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Hydref a gofynnir am ddatganiadau diddordeb neu enwebiadau ar gyfer pob swydd cyn diwedd cyfnod deiliad presennol y swydd.

Bydd tymhorau'r swyddogion fel a ganlyn:

- Llywydd 2 flynedd
- Is-lywydd 2 flynedd ac wedyn yn Llywydd
- Ysgrifennydd 3 blynedd
- Trysorydd 5 mlynedd
- Arweinydd nyrsio / gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol 3 blynedd
- Arweinydd cyfathrebu 2 flynedd
- Arweinydd Ymchwil 4 blynedd
- Arweinydd Addysg a Hyfforddiant 4 blynedd
- Arweinydd Patholeg 3 blynedd

## Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cwrdd yn rheolaidd ddwywaith y flwyddyn yng nghynadleddau'r gwanwyn a'r hydref, a threfnir cyfarfodydd ychwanegol a chyswllt e-bost rhyngddynt fel y bo'n briodol. Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn agored i bob aelod ac fe'i cynhelir yn ystod cyfarfod mis Hydref. Bydd y Grŵp Gweithredol Craidd yn cwrdd bob yn ail fis drwy'r flwyddyn a threfnir cyfarfodydd ychwanegol ar fyr rybudd a chyswllt e-bost fel y bo'n briodol.

## *Cynadleddau*

Cynhelir dwy gynhadledd bob blwyddyn yn y gwanwyn a'r hydref pryd gall aelodau gwrdd wyneb-yn-wyneb. Pan na fydd hi'n bosib cwrdd wyneb-ynwyneb, gellir cynnal cyfarfodydd rhithiol.

Bydd y cyfarfodydd rhithiol yn rhad ac am ddim ond bydd tâl ychwanegol yn ddyledus i ymuno â chynhadledd wyneb-yn-wyneb, tâl a bennir gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd tâl gostyngol i ddod i gynhadledd i nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol, rheolwyr iechyd a meddygon dan hyfforddiant – gostyngiad o 50% a 75% o'r gost i aelodau llawn yn unol â lefelau ffïoedd

aelodaeth.  Bydd aelodau er anrhydedd yn talu i ddod i gynadleddau yn ôl eu cefndir proffesiynol ac yn unol â lefelau ffïoedd aelodaeth. Gall unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas ymuno â chynhadledd am dâl ychwanegol, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith.

Cynhelir cynhadledd y gwanwyn ym mis Mawrth mewn lleoliad bennir gan y Pwyllgor Gwaith, ac mae'n ddiwrnod addysgol llawn. Pennir y cynnwys gan y Pwyllgor Gwaith Craidd, ar sail adborth gan yr aelodau a dadansoddi anghenion hyfforddiant.

Cynhelir cynhadledd yr Hydref ym mis Hydref, mewn lleoliad a bennir gan y Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn, a threfnir diwrnod i ffwrdd ynghynt. Bydd y ddau diwrnod yn addysgol a phennir y cynnwys gan y Grŵp Gweithredol Craidd.

## Cyllid

Mae CGEC yn gymdeithas breifat gyda chyfrif banc cymdeithas breifat ac mae'n sefydliad nid-ar-gyfer-elw.
Daw incwm o nawdd i gynadleddau CGEC, digwyddiadau hyfforddiant ar-lein a ffïoedd aelodaeth.
Pan na fydd costau teithio, cynhaliaeth a llety wedi eu talu gan sefydliadau GIG aelodau gweithredol unigol, bydd CGEC yn ad-dalu costau a gododd wrth ymgymryd â gwaith swyddogol CGEC.
Bydd y Trysorydd yn cymeradwyo taliadau ar ran y sefydliad ac yn cylchredeg mantolen flynyddol i bob aelod cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn yr Hydref lle bydd yn cael ei chyflwyno. Bydd y fantolen hefyd ar gael ar wefan CGEC.

Caiff y cyfrifon eu harchwilio'n flynyddol gan archwilydd annibynnol a chyhoeddir y canlyniadau ar wefan CGEC.

## Cyfathrebu

Yr Arweinyddion Cyfathrebu sy'n gyfrifol am gyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid i gyd yn unol â chynllun ymgysylltu â rhanddeiliad CGEC, ac yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu safonol.

Bydd y swyddogion yn datblygu cyfathrebiadau ychwanegol ag aelodau pan fydd angen ac yn eu dosbarthu yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu safonol.

## Gwobrau a Bwrsariaethau

Mae CGEC yn ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol yr aelodau ac i gydnabod eu cyflawniadau. Aliniwyd fframwaith hyfforddi a datblygu CGEC â'r cynllun strategol a gweithredol blynyddol ac mae'n cynnwys:

- Sesiynau hyfforddi misol rhithiol rhad ac am ddim
- Cyrsiau cyffredinol a ddarperir ac a ariennir yn genedlaethol
- Bwrsari blynyddol

Gwneir ceisiadau ar gyfer cyrsiau a bwrsariaethau drwy wefan CGEC yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu safonol. Dyfernir llefydd hyfforddi a bwrsariaethau yn yn ôl disgresiwn y Grŵp Gweithredol Craidd ac mae'r rhain yn dibynnu ar faint o gyllid sydd ar gael.

Dyfernir medalau'r Llywydd yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Os derbynnir enwebiadau teilwng, dyfernir medalau i un ymgynghorydd neu feddyg cyfatebol; un meddyg o dan hyfforddiant; ac un aelod nyrsio neu weithiwr iechyd proffesiynol perthynol sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i wasanaethau Gastroenteroleg neu Endosgopi yng Nghymru. Gwahoddir enwebiadau o flaen llaw a dyfernir medalau yn ôl disgresiwn y Grŵp Gweithredol Craidd ac yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu safonol.

## Gwelliannau i'r cyfansoddiad

Gall aelodau awgrymu newidiadau i'r cyfansoddiad drwy ysgrifennu i'r Grŵp Gweithredol Craidd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Bydd y Grŵp Gweithredol Craidd yn eu trafod ac yn eu blaenyrru i'r Pwyllgor Gwaith os bydd angen. Rhoddir adborth i'r unigolyn sydd wedi rhoi'r awgrym am newid gerbron gan y Grŵp Gweithredol Craidd. Gellir cymeradwyo mân newidiadau i'r cyfansoddiad gan y Pwyllgor Gwaith. Rhaid i aelodau bleidleisio ar newidiadau sylweddol trwy falot gyda mwy na 50% o'r ymatebion o blaid derbyn y newidiadau er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Atodiad 1: Ychwanegiadau a newidiadau i'r fersiwn blaenorol

| Ychwanegiadau | Newidiadau |
|---|---|
| Strwythur sefydliadol | |
| Tair lefel:<br>• Gweithredol<br>• Rhwydweithiau<br>• Cysylltiadau â sefydliadau allanol | Pwyllgor Gwaith yn gosod cyfeiriad strategol a pholisi |
| Datblygu'r Grŵp Gweithredol Craidd | Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo grymoedd i'r Grŵp Gweithredol Craidd ar gyfer dyletswyddau gweithredol |

| | |
|---|---|
| Datblygu Rhwydwaith Proffesiynol Nyrsys a Gweithwyr Iechyd Perthynol i gymryd lle'r Pwyllgor Cymdeithion | |
| Datblygu rhwydwaith Patholeg Cymru | |
| Datblygu rhwydwaith addysg a hyfforddiant | |
| Datblygu rhwydwaith ymchwil | |
| Sefydlu cysylltiadau ffurfiol â phob sefydliad cenedlaethol perthnasol | |
| Cylchoedd gorchwyl ar gyfer pob grŵp | |
| Proffil rôl i aelodau'r grwpiau lefel weithredol a chynrychiolwyr apwyntiedig | |
| Gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer gweithgareddau arferol | |
| Aelodaeth | |
| Ffïoedd aelodaeth:<br>Cyflwyno tâl aelodaeth i nyrsys / gweithwyr iechyd perthynol / rheolwyr a meddygon dan hyfforddiant ar 50% a 75% o ffïoedd yr ymgynghorwyr | Pleidleisio – un bleidlais i bob aelod (heblaw am aelodau er anrhydedd a myfyrwyr) sydd ddim yn ddibynnol ar ffïoedd aelodaeth |
| Gwirio cais gan y Grŵp Gweithredol Craidd os na fydd yn cwrdd â'r meini prawf aelodaeth | Aelodaeth er anrhydedd – ddim yn gyfyngedig i rai sydd yn byw yng Nghymru neu sydd wedi ymddeol |
| Aelodaeth i fyfyrwyr yn rhad ac am ddim – yn cyfateb i aelodaeth er anrhydedd | Cais am aelodaeth drwy'r wefan yn unig |
| | Ffïoedd yn daladwy drwy archeb sefydlog ar y 1af o Hydref bob blwyddyn |
| Rolau a chyfrifoldebau | |
| Pwyllgor Gwaith:<br>• Cytuno cynlluniau strategol a blynyddol<br>• Yn cynnwys pob swyddog a chynrychiolwyr enwebedig<br>• Llywydd – yn arwain ar lywodraethiant ac arweiniad | Pwyllgor Gwaith:<br>• Cyn-lywydd ddim yn aelod bellach<br>• Cyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant nawr yn eistedd ar y rhwydwaith hyfforddiant yn hytrach na'r Pwyllgor Gwaith |

| | |
|---|---|
| • Is-lywydd – yn arwain ar ansawdd a gwella gwasanaeth<br>• Arweinydd ymchwil – yn arwain ar ymchwil ac archwilio<br>• Arweinydd hyfforddiant – yn arwain ar addysg a hyfforddiant Grŵp Gweithredol Craidd:<br>• Rheolaeth weithredol<br>• Yn cynnwys llywydd, is-lywydd, ysgrifennydd, trysorydd, arweinyddion nyrsio / GIPP, arweinyddion cyfathrebu a gweinyddwr<br>• Arweinyddion hyfforddiant ac ymchwil i'w cyfethol yn ôl yr angen<br>Rhwydweithiau<br>• Dan arweiniad swyddogion priodol<br>Cysylltiadau<br>• Arweinwyr apwyntiedig i'r BSGCSSG, BSGNA a JAG<br>• Proffiliau rôl arweinwyr apwyntiedig<br>• Arweinwyr apwyntiedig pwyllgorau gweithredol trwy dymor deiliad y swydd<br>• Cynrychiolwyr o sefydliadau cysylltiedig – gofynnir i sefydliadau eu henwebu | |
| Swyddogion | |
| Datblygu swydd arweinydd nyrsio / gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol | Pob tymor deiliadg yn dod i derfyn yn y CCB |
| Datblygu swydd arweiniol addysg a hyfforddiant | Llywydd / Is-lywydd yn cael eu hethol trwy enwebiad a balot |
| Datblygu swydd arweiniol ymchwil | Pob swyddog arall yn cael eu recriwtio trwy fynegi diddordeb a chyfweliad |
| Swyddogion yn cael rolau arweiniol ar gyfer amcanion strategol – Is-lywydd i arwain ar ansawdd a gwelliannau gwasanaethol | |
| Cyfarfodydd | |
| Grŵp Gweithredol Craidd i gwrdd bob yn ail fis drwy'r flwyddyn | Pwyllgor Gwaith i gwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn – cynadleddau'r gwanwyn a'r hydref – cyswllt e-bost yn ôl yr angen |

| | |
|---|---|
| Cynadleddau – yn y gwanwyn a'r hydref – wyneb-yn-wyneb os yn bosib, fel arall yn rhithiol | Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ystod cyfarfod y hydref |
| Ffioedd cynhadledd i'w cytuno gan y Pwyllgor Gwaith ac yn raddedig yn ôl cyflog ac yn unol â ffioedd aelodaeth | Rhaid i bob aelod dalu am bob cynhadledd, gan gynnwys aelodau er anrhydedd a myfyrwyr |
| | Bydd cynadleddau'n agored i unigolion nad ydynt yn aelodau am dâl uwch a osodir gan y Pwyllgor Gwaith |
| Cyllid | |
| Archwiliad annibynnol blynyddol o'r cyfrifon a'r canlyniadau ar y wefan | |
| Cyfathrebu | |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu yn unol â'r cynllun dadansoddiad ac ymgysylltu â rhanddeiliad | |
| Hyfforddiant, Gwobrau a Bwrsariaethau | |
| Sesiynau hyfforddiant misol yn rhad ac am ddim | Bwrsari am unrhyw gwrs neu gyfle datblygiad proffesiynol gyda budd i'r gwasanaeth |
| Cyrsiau cyffredinol wedi eu hariannu a'u darparu'n genedlaethol | |
| Medal y Llywydd i gydnabod cyfraniad rhagorol yn y maes | |
| Newidiadau i'r Cyfansoddiad | |
| Newidiadau sylweddol i'w cymeradwyo drwy falot e-bost o'r aelodaeth yn hytrach na'r post | Rhaid i fwy na 50% o'r aelodaeth sydd yn cyfateb i'r balot, bleidleisio o blaid derbyn y newidiadau cyn eu cymeradwyo |
| | |

*Cyfieithad gan Rhodri Davies, Is-Lywydd CGEC. Chwefror 2025*